Cyngor Cymuned Bontnewydd

COFNODION CYFARFOD MISOL a gynhaliwyd ar Medi 15fed 2011; 7 o'r gloch, Y Ganolfan, Bontnewydd

Presennol : Yn bresennol yn y cyfarfod oedd Cynghorydd Erddyn Davies, Cadeirydd, gyda'r Cynghorwyr Ifor D. Williams, Dafydd Iwan, Rhys Pugh, Geraint R. Jones, Catrin Roberts ac Hilma Edwards yn bresennol. Hefyd, y Cynghorydd Sir, Chris Hughes, a Bryn Hughes, y Clerc. Oedd 5 aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ogystal. Cafwyd gair o groeso gan y Cadeirydd i bawb, a cyfleodd cydymdeimladau'r Cyngor Cymuned i'r Cynghorydd Dafydd Iwan yn ei brofedigaeth am ei frawd, yr Actor Huw Ceredig. Nid oedd neb yn datgan diddordeb a chafwyd ymddiheuriadau gan Cynghorydd Emyr Williams, Cynghorydd Marian Roberts a Cynghorydd T. Cyril Owen.

Cafwyd y Cofnodion yn gywir drwy gynnig gan Cynghorydd Geraint R. Jones a gafodd ei eilio gan Cynghorydd Dafydd Iwan. Dim gwrthwynebiad.

Parc y Plwyf, Llanfaglan : Datganodd y clerc y bwriadai gynnal cyfarod hefo'r Is-bwyllgor wedi darfod y cyfarfod yma. Oedd y tri aelod o'r pwyllgor yn bresennol ac yn datgan y gallant aros.

Arwyddion rhybudd – Taclo problemau baw c□n : Adroddodd y clerc ei fod wedi cyfarfod gyda Clive Price o Gyngor Gwynedd a'r Cynghorydd T.Cyril Owen yn Llwyn Beuno. Aethpwyd o gwmpas yr ystad a cytunodd Mr Price y byddai'n trefnu cael gosod arwyddion a bin ychwanegol yn yr ardal.

Cyflwr Modurdai llwyn Beuno : Datganodd y clerc fod 3 garej gyda'r drysau wedi agor ar ôl i rhywun falu'r cloeau. Darllennodd y Cadeirydd lythyr gan Daniel Parry, Cartrefi Cymunedol Gwynedd mewn ymateb i ohebiaeth blaenorol y Cyngor Cymuned. Datganodd Mr Parry y bwriadai drefnu i'w gwasanaeth cynnal a chadw atgyweirio'r difrod.

Gwahoddiad i PCSO Ian Rooksby, Heddlu Gogledd Cymru, i gyfarfod y Cyngor : Darllenwyd neges y PCSO yn ymddiheuro nad oedd neb ar gael i gyfarfod aelodau'r Cyngor Cymuned a byddai'n ceisio trefnu dyddiad sydd yn fwy cyfleus. Yn ei adroddiad ysgrifenedig fe ddatgannodd bod lladrata deunyddiau metel wedi cynyddu, yn arbennig eitemau o ffermydd, stadau diwydiannol ac adeiladau gwag. Dywedodd ymhellach bod cynnydd mewn achosion o graffiti yn ardaloedd Llanwnda, Penygroes a Talysarn, ond nad oedd yn ymddangos yn broblem mawr ym Montnewydd.

DATGANIAD Y BANC : Balans hyd at 28 Awst yn £22,052.19

<u>CYFLOG A CHOSTAU CLERC GORFFENNAF 2011</u>

GROS = £301.13 NET = £259.33 CYLLID Y WLAD = £41.80

<u>CYFLOG A CHOSTAU CLERC AWST 2011</u>

GROS = £304.69 NET = £263.09 CYLLID Y WLAD = £41.60

Cais cynllunio C11/0640/19/AM Y Gweithdy, Dol Beuno, Bontnewydd

Cafwyd cynrychiolaeth o 5 o bobl oedd yn datgan ei gwrthwynebiad i'r cais cynllunio. Darllennodd y Cadeirydd lythyr gan Dafydd a Rhiannon Davies yn datgan eu gwrthwynebiad â'r rhesymau dros hynny. Cafwyd trafodaeth ar y cais.

Penderfyniad : GWRTHWYNEBU'R CAIS CYNLLUNIO Sylwadau : Y clerc i ddanfon llythyr i Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd yn datgan penderfyniad y Cyngor Cymuned i wrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol :

- **GOR-DDATBLYGU – Barn yr aelodau oedd y dylid gwrthwynebu'r cais oherwydd gor-ddatblygu sydd eisoes yn gyfyng.**
- **IECHYD A DIOGELWCH – Oedd yr aelodau yn teimlo bod y lleoliad, sydd mewn rhan o'r pentref ble leolir busnes prysur ac ysgol gynradd, ddim yn le delfrydol ar gyfer datblygiad o'r fath oherwydd y cynydd yn risg iechyd a diogelwch cerddwyr sydd yn pasio'r adeilad er mwyn cael mynediad at yr ysgol. Rhaid ystyried y plant yng chyd-destun y pwynt yma, yn arbennig cerbyd neu cerbydau'r sawl fydd yn meddiannu'r t□.**

- **CARTHFFOSIAETH - Oedd rhai o'r aelodau yn ymwybodol o broblemau carthffosiaeth hanesyddol a dylid ystyried y cynnydd fydd ar wasanaethau carthffosiaeth y rhan yma o'r pentref pe byddai'r datblygiad yn cael ei ganiatau.**

Cais cynllunio C10A/0556/19/LL Ty Glan Menai, Ffordd Aber
Cyfeiriodd y clerc sylw'r aelodau i'r sylwadau datganwyd pan drafodwyd y cais cynllunio y llynedd.
Penderfyniad : Dim ychwanegu na newid y sylwadau â'r penderfyniad wnaethpwyd pan drafodwyd y cais y llynedd.

Ceir ar werth sydd yn parcio ar y ffordd ger Stad y Bryn : Eitem gan Cynghorydd Dafydd Iwan
Cyfeiriodd y Cynghorydd Dafydd Iwan sylw'r aelodau i g□yn yr oedd wedi ei dderbyn gan un o blwyfolion y pentref ynglyn ceir ar werth sydd wedi parcio ar y ffordd ger Stad y Bryn. Mae'n ymddangos fod y cerbydau yn aros yno am beth amser.
Penderfyniad : Mae'r clerc i ysgrifennu at Mr D.W. Williams, Cyngor Gwynedd yn tynnu ei sylw at y broblem a gofyn iddo ystyried pa gamau gall y Cyngor ei gymryd i geisio ymateb i'r broblem.

Casglu gwastraff dros cyfnod y Nadolig : Eitem gan Cynghorydd Hilma Ll. Edwards
Cyfeiriodd y Cynghorydd Hilma Ll. Edwards sylw'r aelodau i'r problemau blynyddol gyda casglu'r gwastraff dros wyliau'r Nadolig. Penderfyniad : Y clerc i gysylltu â Steffan Jones, Cyngor Gwynedd.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Nos Iau, Hydref 20fed am 7 o'r gloch